

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 8

Nodyn Canllaw 8: Y weithdrefn apêl

Cyflwyniad

Cewch gyflwyno apêl yn erbyn pob agwedd o system casglu a gorfodi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol – mae hyn yn cynnwys trefnau'r Cyngor o gyfrifo'r swm sy'n ddyledus ac unrhyw gamau gweithredu mae'r Cyngor yn eu cymryd. Bydd y nodyn yma'n amlinellu'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno apeliadau o'r fath: sut i gyflwyno apêl, erbyn pryd, a phwy i gyflwyno apêl iddo.

Ardoll Seilwaith Cymunedol – Apeliadau

Cewch gyflwyno apêl yn erbyn pob agwedd o system casglu a gorfodi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol – mae hyn yn cynnwys trefnau'r Cyngor o gyfrifo'r swm sy'n ddyledus ac unrhyw gamau gweithredu mae'r Cyngor yn eu cymryd. Mae yna ddau eithriad:

chewch ddim cyflwyno apêl mewn perthynas â gostyngiad tai cymdeithasol a gostyngiad amgylchiadau eithriadol.

Cyflwyno apêl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn erbyn trefnau'r Cyngor o gyfrifo'r gost mewn hysbysiad atebolrwydd

Gofyn am adolygiad o'r gost yma – Ydych chi o'r farn bod cost yr Ardoll yn eich hysbysiad atebolrwydd wedi'i chyfrifo'n anghywir?

Gofynnwch i'r Cyngor adolygu'r cyfrifiad yn unol ag Adran 113 o Reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Rhaid i chi gyflwyno'r cais o'r fath yn ysgrifenedig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad atebolrwydd. Nodwch pam rydych chi o'r farn bod yr hysbysiad atebolrwydd yn anghywir. Fe gewch hefyd gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig rydych chi o'r farn sy'n briodol yn gefn i'ch cais i'r Cyngor.

Sut bydd y Cyngor yn cynnal yr adolygiad ac yn rhoi gwybod ichi am y canlyniad?

Pan fydd eich cais i adolygu'r swm yn dod i law y Cyngor, fe fydd yn sicrhau bod y person sy'n cynnal yr adolygiad yn uwch o ran ei swydd na'r person a gyfrifodd y swm yn wreiddiol. Byddwn ni'n rhoi gwybod ichi am ein penderfyniad o fewn 14 diwrnod o dderbyn eich cais, gan gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad. Serch hynny, os ydy datblygiad wedi dechrau cyn ichi gael gwybod am ein penderfyniad, bydd yr adolygiad yn dod i ben ac fe fydd y gost wreiddiol yn ddyledus yn y dull sydd wedi'i nodi yn yr Hysbysiad Gorchymyn.

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 8

Eich hawl i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad mae'r Cyngor yn ei wneud yn dilyn adolygu'r gost – Ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad y Cyngor? Neu ydych chi heb gael gwybod am y penderfyniad o fewn 14 diwrnod? Fe gewch gyflwyno apêl i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r Hysbysiad Atebolrwydd. Serch hynny, chewch chi ddim cyflwyno apêl i'r VOA mewn perthynas â sut caiff swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n ddyledus ei gyfrifo os yw'r datblygiad eisoes wedi'i ddechrau. Fydd yr apêl hefyd yn dod i ben os ydy'r datblygiad yn dechrau cyn ichi gael gwybod am ganlyniad yr apêl.

Apeliadau yn erbyn rhannu'r atebolrwydd

Fe gewch gyflwyno apêl i'r VOA yn erbyn unrhyw achos, y mae'r Cyngor amdano, o rannu atebolrwydd. Rhaid cyflwyno apeliadau o'r fath o fewn 28 diwrnod o dderbyn hysbysiad o benderfyniad y Cyngor. Os cewch gyflwyno apêl, bydd unrhyw Hysbysiadau Gorchymyn (gan gynnwys taliadau ychwanegol) mewn perthynas â'r datblygiad dan sylw yn cael eu gohirio, hyd nes derbynnir canlyniad yr apêl.

Apeliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â chamau gorfodi mewn perthynas â'r Ardoll

Camau cyntaf – cysylltu â'r Cyngor – Os ydych chi o'r farn bod cam gorfodi'r Ardoll wedi'i gymryd yn ddiangen neu ar gam, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r Cyngor yn gyntaf. Efallai y bydd yn haws ac yn gyflymach i ddatrys y broblem drwy gysylltu â ni'n gyntaf cyn cymryd camau mwy ffurfiol. Serch hynny, chewch chi ddim cyflwyno apêl ffurfiol ar ôl 28 diwrnod wedi dyddiad eich hysbysiad gan y Cyngor.

Cyflwyno apêl ffurfiol yn erbyn tâl ychwanegol

Rhesymau dros apelio – Cewch gyflwyno apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r tâl ychwanegol os:

- Doedd yr achos o dor-cyfraith honedig ddim wedi digwydd;
- Doedd y Cyngor ddim wedi cyflwyno Hysbysiad Atebolrwydd mewn perthynas â'r datblygiad sy'n daladwy y mae'r taliadau ychwanegol a wnelo ag ef; neu
- Mae'r tâl ychwanegol wedi'i gyfrifo'n anghywir;

Bydd cyflwyno apêl yn erbyn tâl ychwanegol yn gohirio'r tâl hyd nes i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu ar yr apêl dan sylw.

Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor i farnu bod datblygiad wedi dechrau

Cewch gyflwyno apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn unrhyw benderfyniadau'r Cyngor i farnu bod y datblygiad wedi dechrau. Rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 28 diwrnod o ddyddiad derbyn hysbysiad o benderfyniad o'r fath. Os caiff apêl ei chaniatáu, bydd unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â'r dyddiad dechrau tybiedig, gan gynnwys cyflwyno unrhyw daliadau ychwanegol, yn cael eu gohirio hyd nes derbynnir canlyniad yr apêl.

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 8

Manylion Cyswllt

Cewch gyflwyno apeliadau mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i'r VOA drwy e-bostio:

cil.appeals@voa.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i:

CIL Appeals

Valuation Office Agency

Statutory Valuations Team (CIL)

Eagle Star House

Regent Centre

Gosforth

Newcastle upon Tyne

NE3 3TW